

PRIFFYRDD, CYMRU

2012 Rhif 3

DEDDF PRIFFYRDD 1980

**GORCHYMYN CEFNFFORDD SANCLÊR
I DDOC PENFRO (YR A477)
(FFYRDD YMYL GWELLIANT
SANCLÊR – RHOS-GOCH) 2012**

Gwnaed *5 Ionawr 2012*

Yn dod i rym *18 Ionawr 2012*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 12, 14, 125 a 268 o Ddeddf Priffyrdd 1980⁽¹⁾ ('Deddf 1980') a phob pŵer galluogi arall⁽²⁾ yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi, mewn perthynas â'r gefnffordd rhwng Sanclêr a Rhos-goch yn Sir Gaerfyrddin;

- a. i wneud y gwaith o wella priffyrdd;
- b. i gau priffyrdd neu rannau o briffyrdd;
- c. i adeiladu priffyrdd newydd;
- ch. i adeiladu priffyrdd dros dro;
- d. i gau mynedfeydd preifat i fangreoedd, ac
- dd. i ddarparu mynedfeydd newydd i fangreoedd.

2. Dynodir y gwaith a awdurdodir gan erthygl 1 yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn a rifwyd o 1 i 6, a dangosir ef ar y planiau safle a rifwyd o 1 i 6, sydd wedi eu cynnwys yn y plan a adneuwyd ac sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn, yn y dull canlynol:-

- a. enwir y priffyrdd sydd i'w gwella yn yr Atodlenni, a dangosir hwy â llinellau rhesog ar y plan a adneuwyd;
- b. disgrifir y darnau a'r rhannau o briffyrdd sydd i'w cau yn yr Atodlenni (amcangyfrif yn unig

- yw pob pellter a nodir) a dangosir hwy â llinellau rhesog du a gwyn ar y plan a adneuwyd;
- c. dynodir y priffyrdd newydd sydd i'w hadeiladu drwy ddefnyddio, yn yr Atodlenni, y llythrennau cyfeirnod a roddir i'r priffyrdd newydd hynny ar y plan a adneuwyd. Pan fo priffordd newydd i'w hadeiladu mewn cysylltiad â chau darn neu ran o briffordd a ddisgrifir mewn Atodlen, rhoddir y llythyren gyfeirnod briodol gyferbyn â'r disgrifiad o'r darn hwnnw neu'r rhan honno, ac os yw priffordd newydd i fod yn llwybr troed, llwybr beicio neu lwybr ceffylau, mae'r geiriau "llwybr troed" neu "llwybr beicio" neu "llwybr ceffylau" (yn ôl fel y digwydd) yn ymddangos mewn cromfachau o dan y llythyren gyfeirnod. Defnyddir dotwaith i ddangos llwybrau'r priffyrdd newydd sydd i'w hadeiladu, a dangosir llinell ganol pob priffordd newydd gan linell ddu ddi-dor ar y plan a adneuwyd;
- ch. dynodir y priffyrdd dros dro sydd i'w hadeiladu drwy ddefnyddio, yn yr Atodlenni, y llythrennau cyfeirnod a roddir i'r priffyrdd dros dro hynny ar y plan a adneuwyd. Yn yr Atodlen, mae'r geiriau "priffordd dros dro" yn ymddangos mewn cromfachau o dan y llythyren gyfeirnod. Dangosir llwybrau'r priffyrdd dros dro sydd i'w hadeiladu â llinellau rhesog onglog ar y plan a adneuwyd;
- d. disgrifir y darnau o fynedfeydd preifat sydd i'w cau yn yr Atodlenni (amcangyfrif yn unig yw pob pellter a roddir), a rhoddir iddynt y rhifau cyfeirnod a ddangosir ar y plan a adneuwyd, a dangosir hwy fel bandiau du solet, ac

dd. dynodir y mynedfeydd newydd sydd i'w darparu drwy ddefnyddio, yn yr Atodlenni, y rhifau cyfeirnod a roddir i'r mynedfeydd newydd hynny ar y plan a adnewwyd, a phan fo mynedfa newydd i'w darparu mewn cysylltiad â chau darn o fynedfa breifat a ddisgrifir mewn Atodlen, rhoddir ei rhif cyfeirnod gyferbyn â'r disgrifiad o'r darn hwnnw. Dangosir llwybrau'r mynedfeydd preifat newydd gan linellau lletraws ar y plan a adnewwyd.

3. Mae'r plan a adnewwyd yn nodi safle'r gefnffordd a llwybr y gefnffordd newydd mewn perthynas â'r gwaith awdurdodedig a ddangosir ar y plan a adnewwyd.

4. Mae'r priffyrdd newydd a ddynodir felly yn yr Atodlen ac y rhoddir y llythrennau cyfeirnod 1/B, 4/A, 4/D a 5/A iddynt ar y plan a adnewwyd yn briffyrdd sydd i'w hadeiladu at ddibenion dros dro, ac y mae Gweinidogion Cymru wedi eu hawdurdodi i gau'r priffyrdd hynny pan na fydd eu hangen mwyach ar ddibenion y cyhoedd.

5. Datgenir drwy hyn fod Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni:-

- (1) mewn perthynas â phob darn o briffordd y mae'r Gorchymyn hwn yn awdurdodi ei gau, bod llwybr arall rhesymol o gyfleus ar gael, neu y darperir llwybr arall o'r fath cyn cau y darn hwnnw o'r gefnffordd, a
- (2) mewn perthynas â phob mynedfa breifat i fangre yr awdurdodir ei chau gan y Gorchymyn hwn, bod mynedfa arall resymol o hwylus ar gael i'r fangre berthnasol neu y darperir mynedfa arall o'r fath cyn cau'r fynedfa breifat honno neu nad oes gofyn rhesymol am fynedfa newydd i'r fangre berthnasol.

6. Mae pob priffordd newydd i'w throsglwyddo i Gyngor Sir Gaerfyrddin yn y modd a nodir yn yr Atodlenni a enwyd, o'r dyddiad y bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r Cyngor bod y briffordd newydd wedi ei chwblhau a'i bod ar agor ar gyfer traffig trwodd.

7. Yn union ar ôl trosglwyddo priffordd newydd y dangosir dosbarthiad ar ei chyfer yn yr Atodlen berthnasol gyferbyn â llythyren gyfeirnod y briffordd newydd honno, caiff y briffordd honno ei dosbarthu yn unol â hynny.

8. Pan wneir darpariaeth yn y Gorchymyn hwn:-

- a. ar gyfer trosglwyddo priffordd newydd i Gyngor Sir Caerfyrddin neu
- b. i alluogi Gweinidogion Cymru i newid priffordd a freiniwyd yng Nghyngor Sir Caerfyrddin,

yna (yn ddarostyngedig i ddarpariaethau adran 268(3) o Ddeddf 1980), ar ddyddiad trosglwyddo'r cyfryw briffordd neu ar gwblhau'r gwaith neu'r newid, neu ar ddyddiad caffael y tir gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r briffordd newydd neu newid y briffordd os yw'n ddiweddarach, trosglwyddir i Gyngor Sir Caerfyrddin unrhyw eiddo, hawliau neu rwymedigaethau (ac eithrio benthyciadau neu daliadau benthyc) a freiniwyd yng Ngweinidogion Cymru neu a achoswyd iddynt mewn cysylltiad â'r briffordd newydd neu'r newid priffordd, yn ôl fel y digwydd.

9. Os oes, yn union cyn cau darn neu ran o briffordd yn unol â'r Gorchymyn hwn, unrhyw gyfarpar ymgwymerwyr statudol o dan, mewn, ar, dros, ar hyd neu ar draws y briffordd honno, yna, yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf 1980, bydd yr ymgwymerwyr hynny yn parhau â'r un hawliau mewn perthynas â'r cyfarpar hwnnw ar ôl y cau, ag a oedd ganddynt yn union cyn y cau.

10. Yn y Gorchymyn hwn:-

mesurir pob mesur pellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol neu'r fynedfa berthnasol i fangre, yn ôl fel y digwydd;

(i). ystyr "ffordd ddosbarthiadol" ("*classified road*") fel dosbarthiad ar gyfer priffordd newydd, yw nad yw'r briffordd yn "brif ffordd" ("*principal road*") at ddibenion deddfiadau neu offerynnau sy'n cyfeirio at briffyrdd a ddosberthir fel prif ffyrdd, ond y mae'n ffordd ddosbarthiadol at ddibenion pob deddfiad neu offeryn sy'n cyfeirio at briffyrdd a ddosberthir gan Weinidogion Cymru ac nad yw'n cyfeirio'n benodol at eu dosbarthu fel prif ffyrdd;

(ii). ystyr "ffordd ddiddosbarth" ("*unclassified road*") yw priffordd nad yw'n llwybr troed nac yn llwybr beiciau nac yn llwybr ceffylau ac nad oes ganddi ddosbarthiad ffurfiol;

(iii). ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd Sanclêr i Ddoc Penfro (yr A477);

(iv). ystyr "y gefnffordd newydd" ("*the new trunk road*") yw'r gefnffordd sydd i'w hadeiladu yn unol â 'Gorchymyn Cefnffordd Sanclêr i Ddoc Penfro (yr A477) (Gwelliant Sanclêr – Rhos-goch a Thynnu Statws Cefnffordd) 2012';

(v). ystyr "priffordd newydd" ("*new highway*") yw priffordd yr awdurdodir ei hadeiladu gan y Gorchymyn hwn a rhaid dehongli "priffyrdd newydd" yn unol â hynny;

(vi). mae "gwelliant" a "gwella" ("*improvement*") mewn perthynas â phriffordd yn cynnwys codi, gostwng neu altro'r briffordd honno rywfodd arall a rhaid dehongli "wedi'i gwella" yn unol â hynny;

(vii). ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan a gynhwysir yn y ffolio planiau sy'n dwyn y rhif HA14/1 WAG8 ac a farciwyd "Gorchymyn Cefnffordd Sanclêr i Ddoc Penfro (yr A477) (Ffyrdd Ymyl Gwelliant Sanclêr – Rhos-goch) 2012"; ac

(viii). ystyr “y plan safle” (“*the site plan*”) yw un o’r planiau safle a rifwyd 1 i 6 yn y ffolio planiau a rifwyd HA14/1 WAG8 ac y cyfeirir ato fel “y plan a adneuwyd” ym mharagraff (vii) o’r erthygl hon.

11. Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Ionawr 2012 a’i enw yw Gorchymyn Cefnffordd Sanclêr i Ddoc Penfro (yr A477) (Ffyrdd Ymyl Gwelliant Sanclêr – Rhos-goch) 2012.

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

Dyddiad 5 Ionawr 2012

G R Morgan

GARETH MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

- (1) 1980 p.66
- (2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae’r pwerau hyn bellach wedi eu trosglwyddo, o ran Cymru, i Weinidogion Cymru.

DEDDF PRIFFYRDD 1980

**GORCHYMYN CEFNFFORDD SANCLÊR I
DDOC PENFRO (YR A477)
(GWELLIANT SANCLÊR – RHOS-GOCH A
THYNNU STATWS CEFNFFORDD) 2012**

A

**GORCHYMYN CEFNFFORDD SANCLÊR I
DDOC PENFRO (YR A477)
(FFYRDD YMYL GWELLIANT SANCLÊR –
RHOS-GOCH) 2012**

HYSBYSIR DRWY HYN FOD Gweinidogion Cymru wedi gwneud y Gorchmynion canlynol:-

1. Gorchymyn o dan adrannau 10 a 12 o Ddeddf Priffyrdd 1980 a fydd yn darparu bod:-

a. ffordd a fydd yn dechrau wrth bwynt ar y gefnffordd bresennol rhyw 768 metr i'r gorllewin o linell ganol ei chyffordd â'r B4314 i Dafarn-sbeit ac yn ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain yn gyffredinol am bellter o tua 7369 metr hyd at bwynt ar y gefnffordd bresennol 467 metr i'r dwyrain o linell ganol ei chyffordd â'r C3230 i Dafarn-sbeit; a

b. ffordd a fydd yn dechrau wrth bwynt ar y gefnffordd bresennol rhyw 695 metr i'r dwyrain o linell ganol ei chyffordd â'r C3230 i Dafarn-sbeit ac yn ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain yn gyffredinol am bellter o tua 660 metr hyd at bwynt ar y gefnffordd bresennol 312 metr i'r gorllewin o linell ganol ei chyffordd â'r U6611 i Backe,

yn cael eu hadeiladu rhwng Cylchfan Sanclêr a man i'r gorllewin o Ros-goch yn Sir Gaerfyrddin ac yn dod yn gefnffyrdd o'r dyddiad y daw'r Gorchymyn i rym; ac

y bydd y darn hwnnw o'r gefnffordd bresennol sy'n dechrau wrth bwynt rhyw 768 metr i'r gorllewin o linell ganol ei chyffordd â'r B4314 i Dafarn-sbeit ac yn ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain yn gyffredinol am bellter o tua 7750 metr hyd at bwynt ar y gefnffordd bresennol 467 metr i'r dwyrain o linell ganol ei chyffordd â'r C3230 i Dafarn-sbeit, yn peidio â bod yn gefnffordd ac yn dod yn ffordd ddisbarthiadol o'r dyddiad y rhoddir hysbysiad o hynny gan Lywodraeth Cymru i Gyngor Sir Caerfyrddin (a fydd yn dod yn awdurdod priffyrdd ar gyfer y darn hwnnw).

2. Gorchymyn o dan adrannau 12, 14, 125 a 268 o Ddeddf Priffyrdd 1980 a fydd yn eu hawdurdodi:-

- a. i wneud y gwaith o wella priffyrdd;
- b. i gau priffyrdd neu rannau o briffyrdd;
- c. i adeiladu priffyrdd newydd;
- ch. i adeiladu priffyrdd dros dro;
- d. i gau mynedfeydd preifat i fangreoedd, ac
- dd. i ddarparu mynedfeydd newydd i fangreoedd.

y cyfan ar neu yng nghyffiniau llwybr y cefnffyrdd newydd a grybwyllir uchod; ac

yn darparu ar gyfer trosglwyddo'r priffyrdd newydd i Gyngor Sir Caerfyrddin ar y dyddiad yr hysbysir y

Cyngor gan Lywodraeth Cymru bod y priffyrdd newydd wedi eu cwblhau ac yn agored i draffig trwodd.

GELLIR ARCHWILIO COPIAU o'r Gorchmynion a'r planiau cysylltiedig yn ddi-dâl yn ystod unrhyw oriau rhesymol o 18 Ionawr 2012 tan 29 Chwefror 2012, neu o fewn 6 wythnos i ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn, pa bynnag gyfnod a ddaw i ben ddiwethaf, yn y swyddfeydd canlynol:

- Y Gât (Canolfan Grefftau Sir Gaerfyrddin), Heol Pentref, Sanclêr, Sir Gaerfyrddin SA33 4AA;
- Yr Adran Gynllunio, Cyngor Sir Caerfyrddin, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin SA31 1LE, ac
- Llywodraeth Cymru, Y Gangen Archebion, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Mae'r Gorchymyn, sy'n dwyn yr enw 'Gorchymyn Cefnffordd Sanclêr i Ddoc Penfro (Yr A477) (Gwelliant Sanclêr – Rhos-goch a Thynnu Statws Cefnffordd) 2012', OS 2012 Rhif 48 (Cy.11), wedi ei gyhoeddi gan TSO (Y Llyfrfa) a gellir prynu copïau ohono ar lein oddi wrth www.tsoshop.co.uk neu TSO @Blackwell; www.tso.co.uk/contact/bookshops/agents/cardiff/ ac Asiantau Achrededig eraill.

Gellir cael copïau o'r Gorchymyn, sy'n dwyn yr enw 'Gorchymyn Cefnffordd Sanclêr i Ddoc Penfro (Yr A477) (Ffyrdd Ymyl Gwelliant Sanclêr – Rhos-goch) 2012' gan Lywodraeth Cymru, Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir oherwydd gwneud y naill neu'r llall o'r Gorchmynion ac sy'n dymuno herio dilysrwydd y Gorchymyn hwnnw ar y sail nad yw o fewn pwerau Deddf Priffyrdd 1980, neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad o'r Ddeddf honno, neu o reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno, mewn perthynas â'r Gorchmynion, wneud cais i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos ar ôl 18 Ionawr 2012, neu o fewn 6 wythnos ar ôl dyddiad cyhoeddi'r Hysbysiad hwn, pa bynnag gyfnod a ddaw i ben ddiwethaf, am atal dros dro neu ddiddymu'r Gorchmynion neu unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir ynddynt.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn Llinell a'r Hysbysiad yn <http://cymru.gov.uk/?lang=cy> (dewiser 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Statudol Lleol', 'Gorchmynion Llinell y Ddeddf Priffyrdd', '2012').

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a'r Hysbysiad yn <http://cymru.gov.uk/?lang=cy> (dewiser 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Anstatudol', 'Trafnidiaeth, Cymru', 'Ymylon Ffyrdd a Gorchymynion Prynu Gorfodol yn unol â'r Ddeddf Priffyrdd', '2012')

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn gan Lywodraeth Cymru, Y Gangen Archebion, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru